
**Sefyllfa Hydrolegol**

3.3 Mae 'Byr Brook' yn llifo tua'r gogledd drwy bentref Pontybodkin gyda cheuffosydd mewn sawl lleoliad, yn cynnwys o dan Ffordd y Bont yng Nghyfeirnod Grid Cenedlaethol (CGC): 327068, 359288. Mae Byr Brook yn ymuno â chwrs dŵr 'Black Brook' yng Nghyfeirnod Grid Cenedlaethol (CGC): 327173, 359355. Mae Black Brook yn llifo tua'r dwyrain drwy bentref Pontybodkin. Ar ôl ymuno â Byr Brook, mae'r cwrs dŵr yn mynd i geuffos o dan Ffordd Corwen, lle daw'n brif afon. Ar ôl i'r cwrs dŵr ddod yn brif afon, fe'i gelwir yn Nant Brook. Mae'r cyrsiau dŵr a'r ceuffosydd wedi'u hamlygu yn Ffigur 5.




**Ffigur 5 – Map Cyrsiau Dŵr**


Yn cynnwys Data'r Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron (2024)

## Mapiau Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru

3.7 Mae 'Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio – Afonydd a Môr' Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi'r perygl llifogydd sy'n gysylltiedig â phrif afon a'r môr, a ddangosir yn Ffigur 8 ac Atodiad F. Mae'r map yn dangos bod nifer o eiddo / strydoedd ym Mhontybodkin o fewn Parth Llifogydd 2 neu 3. Diffinnir Parth Llifogydd 2 fel ardal gyda rhwng 0.1% ac 1% o gyfle llifogydd o afonydd a / neu'r môr mewn unrhyw flwyddyn, gan gynnwys effeithiau newid hinsawdd. Diffinnir Parth Llifogydd 3 fel ardal gyda mwy na 1% o gyfle llifogydd o afonydd a / neu'r môr mewn unrhyw flwyddyn, gan gynnwys effeithiau newid hinsawdd.

3.8 Yn ôl 'Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio – Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach' Cyfoeth Naturiol Cymru, mae'r perygl llifogydd a ddangosir yn gysylltiedig â chyrsiau dŵr bach fel Byr Brook a Black Brook ac yn seiliedig ar gyfuniad o ddŵr glaw a data LiDAR. Mae'r map yn dangos ardaloedd lle gallai dŵr wyneb lifo neu gronni pan mae'n glawio'n drwm. Mae'r map LiDAR ar gyfer cyd-destun y tir o gwmpas Pontybodkin yn Atodiad D.

3.9 Mae mapiau Cyfoeth Naturiol Cymru yn dangos fod y llifogydd yn llifo allan o Black Brook ac i Ffordd y Bont, gan barhau tua'r dwyrain ar hyd y ffordd. Dangosir llifogydd hefyd ar hyd Ffordd Corwen ac ymddengys ei fod yn gyfuniad o ddŵr wyneb (glaw) a llifogydd o'r sianel o Byr Brook. Dangosir Byr Brook yn dod drosodd wrth ymyl yr iard metel sgrap, gyda'r llifogydd yn llifo i Ffordd Corwen a thua'r gogledd-ddwyrain. Mae'r mannau ble bu i'r sianel orlifo o Byr Brook a Black Brook yn gysylltiedig â lleoliad mewnfeydd y ceuffosydd. Mae'r ceuffosydd felly yn chwarae rhan allweddol yn y llifogydd a gafwyd yn yr ardal yma.




**Ffigur 8 – Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio – Afonydd, Môr, Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach Cyfoeth Naturiol Cymru**

Yn cynnwys Data OS © Hawlfraint y Goron (2024). Yn cynnwys Gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru[6] a Hawliau Cronfa Ddata. Cedwir Pob Hawl.

[6] Map Perygl Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru - https://map-llifogydd-ar-gyfer-cynllunio.cyfoethnaturiol.cymru/

### Ffordd Corwen

4.4 Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned a budd-ddeiliaid, mae'n debyg bod y llifogydd i'r eiddo ar hyd Ffordd Corwen wedi'i achosi gan gyfuniad o orlif o ddŵr wyneb yn llifo tua'r gogledd-ddwyrain i lawr Ffordd Corwen a gan lifogydd ar Ffordd Corwen a achoswyd gan orlif o ddŵr ger mewnfa ceuffos Byr Brook wrth ymyl yr iard metel sgrap. Cafwyd adroddiadau fod dŵr llifogydd yn hel y tu ôl i'r geuffos cyn llifo i Ffordd Corwen. Cafodd sawl eiddo ar hyd Ffordd Corwen eu heffeithio gan y llifogydd, ond ni cheir llawer o adroddiadau am ddŵr wedi llifo i mewn i eiddo.

4.5 Dywedodd sawl cymydog fod eiddo ar hyd Ffordd Corwen wedi cael dŵr tu mewn. Mae sawl eiddo ar hyd Ffordd Corwen yn is na'r ffordd, gan arwain at ddŵr llifogydd o'r ffordd yn mynd i mewn i'r eiddo hyn. Mae cerrig drws yr eiddo a effeithiwyd yn is o lawer na'r rhai mewn eiddo cyfagos na chafodd eu heffeithio. Mae rhan fwyaf o'r eiddo na chafodd eu heffeithio gan lifogydd mewnol ar hyd Ffordd Corwen yn uwch na lefel y ffordd a/neu gyda charreg drws uwch.

4.6 Dywedodd y trigolion fod y dŵr yn llifo yn gyflym i lawr Ffordd Corwen, gan fynd i mewn i eiddo ar ddyfnder o 100mm. Cafwyd adroddiadau hefyd am garthion yn y dŵr.

4.7 Cymerodd y trigolion fesurau i ddargyfeirio dŵr o'u heiddo yn defnyddio deunyddiau a oedd wrth law, gan nad oedd ganddynt sachau tywod. Cafwyd adroddiadau am ddŵr ar rodfeydd ac mewn gerddi cefn, gyda waliau solet yn atal y dŵr rhag dianc.

4.8 Cafwyd adroddiadau am lifogydd o ffynonellau eraill hefyd, yn cynnwys systemau draenio'r briffordd a charthffosydd. Mae'n debyg bod llifogydd o'r ffynonellau hyn wedi digwydd o ganlyniad i fewnlif o lif llifogydd afonol a llif dros y tir. Nid yw carthffosydd cyfunol a gylïau priffyrdd wedi'u dylunio i ddal llif llifogydd afonydd. Ceir crynodeb o achosion y llifogydd yn Ffigur 10.



**Ffigur 10 – Ardal Ffordd Corwen**
**Yn cynnwys Data'r Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron (2024)**

